

# Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 2 (Ebrill – Mehefin 2021) i Gymru




16 Medi 2021

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data a gasglwyd gan gyrff dyfarnu ar dystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau cymwysterau eraill a gyhoeddwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin (chwarter 2) 2021. Casglwyd data cyn 2019 gan Ofqual. Nid yw'r datganiad hwn bellach yn cynnwys cymwysterau Bagloriaeth Cymru na'r Dystysgrif Her Sgiliau. Ceir rhagor o wybodaeth am y newid hwn yn y nodiadau cefndir, yn ogystal â gwybodaeth am sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar yr ystadegau hyn.

## Y Prif Bwyntiau



Dyfarnwyd **51,660** o dystysgrifau yn chwarter 2 2021. Mae hwn yn gynydd o **156.7%** o'i gymharu â'r un chwarter yn 2020.

Rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021, dyfarnwyd **238,680** o dystysgrifau, gostyngiad o **7.2%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.



Gwelodd pob sector gynnydd mewn tystysgrifau ac eithrio Gwyddoniaeth a Mathemateg. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf mewn Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant.



Cynyddodd nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer pob lefel ac eithrio Lefel Mynediad, Lefel 5 a Lefel 7 a welodd ostyngiadau bach. Lefel 2 a welodd y cynnydd mwyaf o ran nifer y tystysgrifau.

## Dolenni cyflym

### Ystadegau

[Cyfanswm y tystysgrifau](#)

[Tystysgrifau yn ôl lefel](#)

[Tystysgrifau yn ôl MPS](#)

[Y 10 corff dyfarnu uchaf](#)

[Y 10 cymhwyster uchaf](#)

[Sgiliau Hanfodol Cymru](#)

[Cymwysterau galwedigaethol cymeradwy](#)

[Nodiadau cefndir](#)

## Cyswllt

### Ystadegydd:

Hannah Williams

01633 373 252

[ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org)

### Ymholiadau gan y cyfryngau:

Alan Morris

01633 373 216

[cyfathrebu@cymwysteraucymru.org](mailto:cyfathrebu@cymwysteraucymru.org)


**Diweddariad nesaf:** Tachwedd 2021

# Ystadegau

## Cyfanswm y tystysgrifau a thueddiadau hanesyddol

### Ffigur 1: Mae nifer y tystysgrifau chwarterol wedi cynyddu er gwaethaf gostyngiad blynyddol

Tystysgrifau chwarterol a blynyddol a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill



Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu  
Gellir dod o hyd i'r data llawn yn nhabl 1 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn

### Cymhariaeth Chwarterol

Dyfarnwyd 51,660 o dystysgrifau yn chwarter 2 (Ch2) 2021. Mae hwn yn gynydd o 156.7% o gymharu â Ch2 2020. Mae'r cynnydd cyfrannol mawr hwn yn rhannol oherwydd niferoedd anarferol o isel ar gyfer tystysgrifau yn Ch2 2020, sy'n debygol o fod o ganlyniad i bandemig COVID-19. Er gwaethaf y cynnydd mawr o gymharu â 2020, mae tystysgrifau Ch2 yn is yn 2021 nag yn y blynyddoedd cyn y pandemig.

### Cymhariaeth Flynyddol

Rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021, dyfarnwyd 238,680 o dystysgrifau, sef gostyngiad o 7.2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn gyson â'r duedd ostyngol a welwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf a gall hefyd fod o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae manylion ffactorau allanol eraill sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y duedd ostyngol gyffredinol i'w gweld yn [nodiadau cefndir](#) y cyhoeddiad hwn.

Nid yw'r ystadegau hyn bellach yn cynnwys cymwysterau Bagloriaeth Cymru na'r Dystysgrif Her Sgiliau (gweler [Newidiadau i'r ystadegau hyn](#)). Er mwyn helpu


defnyddiwyd i bontio i'r dull newydd hwn, mae'r cyfansymiau chwarterol a blynyddol a gyfrifwyd ar yr hen sail (h.y. gan gynnwys Bagloriaeth Cymru a THS) i'w gweld yn nhabl 1b y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

## Tystysgrifau yn ôl lefel

### Ffigur 2: Cynyddodd tystysgrifau chwarterol ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau

Canran y newid mewn tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl lefel, Ch2 2021 o gymharu â Ch2 2020

Dangosir cyfanswm y tystysgrifau ar gyfer Ch2 2021 mewn cromfachau



*\*Mae Lefel 1/2 wedi'i chuddio oherwydd i dystysgrifau gynyddu o 0 i 55, sef cynnydd canrannol anfeidraidd  
Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu  
Gellir dod o hyd i'r data llawn yn nhabl 2 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn*

Lefelau 2 a 3 oedd y lefelau a ddyfarnwyd fwyaf yn Ch2 2021, a chyda'i gilydd, roedd y rhain yn cyfrif am 72.8% o'r holl dystysgrifau. Roedd Lefelau 4 ac uwch yn cyfrif am lai na 4% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd.

Gwelodd y rhan fwyaf o lefelau gynydd chwarterol mewn tystysgrifau o gymharu â Ch2 2020. Y cynnydd mwyaf oedd ar lefelau 2 a 3, a gynyddodd 195.8% a 231.6% yn y drefn honno. Er gwaethaf y cynnydd hwn, gwelodd pob lefel ac eithrio Lefel 1/2 a Lefel 4 ostyngiadau blynyddol mewn tystysgrifau.


Lefel Mynediad, Lefel 5 a Lefel 7 oedd yr unig lefelau i weld gostyngiadau chwarterol mewn tystysgrifau o gymharu â Ch2 2020, gyda gostyngiad cyfunol o 155 o dystysgrifau.

## Tystysgrifau yn ôl maes pwnc sector (MPS)

### Ffigur 3: Cynyddodd tystysgrifau ym mhob MPS ac eithrio Gwyddoniaeth a Mathemateg

Canran y newid mewn tystysgrifau a ddyfarnwyd yn ôl MPS, Ch2 2021 o gymharu â Ch2 2020

Dangosir cyfanswm y tystysgrifau ar gyfer Ch2 2021 mewn cromfachau



(\*) Mae MPSau sydd â llai na 100 o dystysgrifau yn y naill chwarter a'r llall wedi cael eu cuddio.  
Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu  
Gellir dod o hyd i'r data llawn yn nhabl 4 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn

Yr MPS gyda'r nifer fwyaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch2 2021 oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' sef 39.3% o'r holl dystysgrifau. 'Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal' oedd yr MPS â'r ail nifer fwyaf o dystysgrifau a ddyfarnwyd, sef 18.6%.

Y sector 'Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant' a welodd y cynnydd chwarterol cyfrannol mwyaf mewn tystysgrifau, gan gynyddu o 30 tystysgrif yn Ch2 2020 i 500 yn Ch2 2021. Y sector gyda'r ail gynnydd mwyaf oedd 'Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi' a welodd gynnydd chwarterol o 890.5%, neu ychydig dros 5,000 o dystysgrifau.

'Gwyddoniaeth a Mathemateg' oedd yr unig sector i ostwng, gyda gostyngiad o 29.8%, neu 25 tystysgrif, o gymharu â Ch2 2021.

## Y 10 corff dyfarnu uchaf

Yn ôl y sefyllfa ar 30 Mehefin 2021, roedd 95 o gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru.

**Tabl 1: Y 10 corff dyfarnu uchaf yn ôl nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021**

Corff Dyfarnu	Mehefin 2019 i Orffennaf 2020	Mehefin 2019 i Orffennaf 2020	Safle Mehefin 2019 i Orffennaf 2020	Safle Mehefin 2020 i Orffennaf 2021	Newid o ran Safle
City & Guilds - City and Guilds of London Institute	68,330	64,085	1	1	→ +0
Pearson - Pearson Education Ltd	37,305	48,090	2	2	→ +0
WJEC - WJEC-CBAC	15,935	16,730	5	3	↑ +2
Agored Cymru	18,945	15,405	4	4	→ +0
Highfield - Highfield Qualifications	23,815	12,555	3	5	↓ -2
LIBF - The London Institute of Banking & Finance	5,475	11,745	11	6	↑ +5
NCFE	6,500	8,330	8	7	↑ +1
ABRSM - Associated Board of the Royal Schools of Music	7,670	5,705	7	8	↓ -1
TCL - Trinity College London	5,875	5,560	9	9	→ +0
QA - Qualsafe Awards	11,165	5,435	6	10	↓ -4

*Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrff dyfarnu  
Ceir rhestr lawn o'r 50 corff dyfarnu uchaf yn nhabl 7 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn*

Oherwydd yr amrywiaeth o gymwysterau a gynigir gan wahanol gyrff dyfarnu, mae'n debygol bod COVID-19 wedi effeithio'n wahanol ar gyrff dyfarnu unigol.

Roedd y deg corff dyfarnu uchaf a ddangosir yn nhabl 1 yn cyfrif am dros 80% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021. Mae City & Guilds yn parhau i ddyfarnu'r nifer fwyaf o dystysgrifau, er gwaethaf gostyngiad blynyddol o 6.2%. Symudodd Highfield Qualifications i lawr ddau safle oherwydd gostyngiad o 47.3% mewn tystysgrifau, gan gyfnewid lleoedd gyda CBAC, a welodd gynydd o 5.0% yn nifer eu tystysgrifau blynyddol. Dringodd LIBF bum lle i'r 10 uchaf, yn dilyn cynnydd mewn tystysgrifau yn y sectorau 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith' a 'Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith'.

## Y 10 cymhwyster uchaf

**Tabl 2: Y 10 cymhwyster uchaf yn ôl tystysgrifau a ddyfarnwyd yn y chwarter hwn**

Cymhwyster	2020 Ch2	2021 Ch2
Tystysgrif Lefel 2 Pearson Edexcel mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol	20	3,370
Tystysgrif Lefel 2 NCFE mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	1,095	3,050
Dyfarniad Lefel 3 Highfield mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	165	1,250
Dyfarniad Lefel 3 QA mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith (RQF)	95	1,150
Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 2 City & Guilds	1,105	950
Sgiliau Hanfodol Cymhwysio Rhifau Lefel 1 City & Guilds	350	865
Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Siarad a Gwrando Rhyngwladol ESOL (Lefel Mynediad 3) (GESE Gradd 5) (B1.1)	15	830
Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 1 City & Guilds	265	795
Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 2 City & Guilds	210	750
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 City & Guilds Craidd	*	680


*Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrff dyfarnu  
Ceir rhestr lawn o'r 50 cymhwyster uchaf yn nhabl 9 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn*

Roedd y deg cymhwyster uchaf yn cyfrif am 26.5% o'r holl dystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch2 2021. O'r deg cymhwyster uchaf hyn, o gymharu â Ch2 2020, Tystysgrif Lefel 2 Pearson Edexcel mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol a welodd y cynnydd mwyaf o dros 3,300 o dystysgrifau. Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf i'w weld gyda thystysgrif Lefel 2 City & Guilds mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, a oedd ag ychydig iawn o dystysgrifau yn Ch2 2020 oherwydd ei fod yn gymhwyster newydd. Yr unig gymhwyster o'r 10 uchaf a welodd ostyngiad o ran tystysgrifau oedd tystysgrif Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol, a welodd ostyngiad o 13.9%. Mae'r holl gymwysterau eraill wedi mwy na dyblu nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn Ch2 2021 o gymharu â Ch2 2020.

## Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC)

### Ffigur 4: Cynnydd mewn tystysgrifau SHC ym mhob pwnc ac eithrio Cyflogadwyedd

Tystysgrifau Sgiliau Hanfodol Cymru Ch2 yn ôl pwnc, 2017 i 2021



*Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu  
Ceir rhestr lawn o'r 50 cymhwyster uchaf yn nhabl 11 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn*

O gymharu â Ch2 2020, cynyddodd cyfanswm y tystysgrifau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru 60.3% yn Ch2 2021. Roedd y cynnydd hwn yn gysylltiedig yn bennaf â chymwysterau Cymhwysio Rhifau a Chyfathrebu ar lefelau 1, 2 a 3. Cynyddodd tystysgrifau Cymhwysio Rhifau 90.0%, tra bod tystysgrifau Cyfathrebu wedi mwy na dyblu. Cynyddodd tystysgrifau Llythrennedd Digidol hefyd ar lefel Mynediad a Lefel 1.


Cynyddodd tystysgrifau ar bob lefel ac eithrio lefel Mynediad, a welodd ostyngiad o 35.2%. Cymwysterau Lefel 3 oedd â'r cynnydd cyfrannol mwyaf o 182.4%.

## Cymwysterau Galwedigaethol Cymeradwy

Mae cymwysterau galwedigaethol cymeradwy wedi'u cynllunio a'u gwneud ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd mae cymwysterau galwedigaethol cymeradwy ar gael yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unig.

### Ffigur 5: Tystysgrifau a ddyfarnwyd mewn tri chymhwyster cymeradwy

Nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a ddyfarnwyd yn Ch2 2021



*Ffynhonnell: Casgliad data Cymwysterau Galwedigaethol Cymwysterau Cymru gan gyrrff dyfarnu  
Ceir rhestr lawn o'r 50 cymhwyster uchaf yn nhabl 13 y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cyhoeddiad hwn*

Yn Ch2 2021, dyfarnwyd cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 City & Guilds mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) am y tro cyntaf. Dyfarnwyd 680 o dystysgrifau ar gyfer cymhwyster Lefel 2 City & Guilds mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, a ddyfarnwyd gyntaf yn Ch2 2020.



# Nodiadau Cefndir

## Pwrpas a sylw i'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am nifer y tystysgrifau a roddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a reoleiddir a chymwysterau eraill yng Nghymru. Mae rhestr lawn y cymwysterau a reoleiddir i'w gweld ar y [Gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru \(QiW\)](#).

Nid yw'r data hwn yn cynnwys TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Dyfarniadau Estyniad Uwch, Prif Ddysgu, Prosiect, Tystysgrifau Her Sgiliau na chymwysterau Bagloriaeth Cymru. Mae nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer rhai o'r cymwysterau hyn i'w gweld ar [wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau](#).

Mae'r data ond yn cynnwys tystysgrifau a ddyfarnwyd i ddysgwyr a gafodd eu hasesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfannau yng Nghymru, waeth beth y math o ganolfan.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data fesul chwarter calendr. Mae Ch1 yn cynrychioli 1 Ionawr i 31 Mawrth; Mae Ch2 yn cynrychioli 1 Ebrill i 30 Mehefin; Mae Ch3 yn cynrychioli 1 Gorffennaf i 30 Medi; ac mae Ch4 yn cynrychioli 1 Hydref i 31 Rhagfyr.

Mae'r datganiad hwn yn dangos nifer y dyfarniadau wedi'u dadansoddi fesul lefel cymhwyster, maes pwnc sector a chorff dyfarnu.

Gwneir cymariaethau yn y datganiad hwn yn bennaf gyda data o'r un chwarter o'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw bod newidiadau tymhorol yn nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd dros y flwyddyn. Er enghraifft, dim ond yn yr haf y dyfernir rhai cymwysterau, ar yr un pryd â TGAU a Safon Uwch.

Nid yw'r ystadegau hyn yn cynrychioli dysgwyr unigol, gan y gallai dysgwr fod wedi cyflawni tystysgrifau lluosog yn ystod y cyfnod hwn.

## Newidiadau i'r ystadegau hyn

O chwarter 1 2021, nid yw cymwysterau Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau bellach wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Mae tystysgrifau ar gyfer cymwysterau Bagloriaeth Cymru cyfredol a blaenorol wedi'u tynnu o'r data am bob cyfnod amser. Nid yw cymwysterau a allai gyfrannu tuag at Bagloriaeth Cymru blaenorol (e.e. Sgiliau Allweddol) wedi'u tynnu gan na allwn bennu a gyfrannodd tystysgrif unigol at Fagloriaeth Cymru ai peidio.

Gwnaethom y newid hwn yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr yr ystadegau hyn, o fewn Cymwysterau Cymru ac o fewn sefydliadau eraill. Gan fod cynifer y dysgwyr oedran ysgol yn astudio ar gyfer y cymwysterau hyn, gwelsom bod y cymwysterau hyn yn llywio'r ystadegau, ac yn ei gwneud yn anodd deall beth oedd yn digwydd yn y sector galwedigaethol yn ei gyfanrwydd. Gwelsom hefyd fod rheoleiddio a monitro'r cymwysterau hyn yn agosach at gymwysterau TGAU a Safon Uwch nag at gymwysterau galwedigaethol eraill, felly rydym wedi symud y gwaith o adrodd ar ystadegau ar gyfer y cymwysterau hyn i'n cyfres o ystadegau cymwysterau cyffredinol.

Er mwyn helpu defnyddwyr i drosglwyddo i'r dull newydd hwn, mae'r cyfansymiau chwarterol a blynyddol a gyfrifir ar yr hen sail (h.y. gan gynnwys Bagloriaeth Cymru a THS) i'w gweld yn nhabl 1b y tablau data a gyhoeddir ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Cyfrifir yr holl dablau a siartiau eraill ar y sail newydd yn unig. Os yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar eich defnydd o'r ystadegau hyn, neu i roi unrhyw adborth arall ar y newidiadau hyn, cysylltwch â ni [ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org).

## **Ffynhonnell Data**

Daw gwybodaeth am gymwysterau a reoleiddir a'u nodweddion (e.e., lefel, corff dyfarnu, MPS) o [Gronfa ddata QiW](#). Lle nad yw cymhwyster hanesyddol wedi'i restru ar QiW, cymerir nodweddion o gofrestr Ofqual. Cymerir rhan newydd o bob cronfa ddata ar adeg ei gynhyrchu, ac adroddir ar yr holl ddata ar gyfer pob cymhwyster yn erbyn y data nodweddion diweddaraf sydd ar gael.

Anfonir data ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd at Gymwysterau Cymru gan gyrff dyfarnu. Casglwyd data cyn chwarter 1 2019 o gyrff dyfarnu gan Ofqual i ni er mwyn ein galluogi ni i gynhyrchu'r ystadegau hyn.

Cyn chwarter 4 2017, adroddwyd ystadegau ar gyfer Cymru gan Ofqual. Mae Ofqual [yn parhau i gasglu data tystysgrifau ar gyfer holl ranbarthau'r DU](#) at ddibenion mewnol, ond nid ydynt bellach yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru.

Pan ddechreuodd Cymwysterau Cymru gasglu'r data hwn o gyrff dyfarnu, cynhaliwyd dau gasgliad ochr yn ochr ag Ofqual. Dadansoddwyd unrhyw wahaniaethau rhwng y data a gasglwyd gennym, a'r data a gasglwyd gan Ofqual, a defnyddiwyd hyn i ymgysylltu â chyrrff dyfarnu er mwyn sicrhau a gwella ansawdd y data. O ganlyniad i'r broses hon, efallai y bydd rhai gwahaniaethau yn y ffordd y mae cyrrff dyfarnu yn adrodd data i ni, o'i gymharu â'r ffordd yr oeddent yn adrodd data i Ofqual cyn hynny.

Tan fis Hydref 2020, nid oedd cofrestr QiW yn cynnwys cymwysterau rheoleiddiedig nad oeddent yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus (a elwir yn gymwysterau "rheoleiddiedig eraill"). Felly, efallai y bydd nifer fach o gymwysterau eraill a reoleiddir yng Nghymru yn unig ar goll o ddata cyn 2019, gan nad oeddent ar gofrestr Ofqual na QiW. Gall y data hanesyddol hefyd gynnwys rhai cymwysterau a ildwyd o gwmpas ein cydnabyddiaeth ond a oedd yn dal i gael eu rhestru ar gofrestr Ofqual ar adeg eu casglu. Mae ein templedi casglu data yn cynnwys cymwysterau sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus a chymwysterau rheoledig eraill, ac felly maent yn rhoi sylw cyflawn i'r tirlun cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a reoleiddir yng Nghymru.

## **Dylanwadau allanol**

### **COVID-19**

Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg [y byddai pob ysgol yng Nghymru yn cau erbyn 20 Mawrth 2020, oherwydd pandemig COVID-19](#). Ar 23 Mawrth 2020, [cyhoeddodd y Prif Weinidog gyfyngiadau pellach i arafu lledaeniad y coronafeirws yng Nghymru](#). Cafodd y mesurau cychwynnol hyn eu llacio cyn dechrau chwarter 3 2020, ond roedd nifer o gyfyngiadau ar waith drwy gydol 2020 ac i mewn i 2021. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, nid oedd llawer o golegau, canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant yn gallu gweithredu am sawl mis. Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i amharu ar ddysgwyr a chyrff dyfarnu. Bydd hyn yn debygol o gael effaith ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill o chwarter 2 2020 ymlaen.

Oherwydd yr angen i gau ysgolion a cholegau a'r amhariad cyffredinol a achoswyd gan bandemig COVID-19, cafodd llawer o'r cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu mewn ffordd a oedd yn wahanol i'r arfer. Ar gyfer rhai cymwysterau, roedd hyn yn golygu bod y canlyniadau cyffredinol yn arbennig o wahanol i ganlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau yn y datganiad hwn yn cynrychioli nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ac nid ydynt yn cynnwys dysgwyr nad ydynt wedi pasio'r cymhwyster. Mewn rhai achosion, gall newidiadau yn y cyfansymiau ar gyfer cymwysterau unigol fod o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd basio, yn hytrach na newidiadau o ran cofrestradau.

### **Bagloriaeth Cymru (y Fagloriaeth)**

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster a ddyfarnwyd i lawer o ddysgwyr yng Nghymru. Mewn blynyddoedd blaenorol, gallai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol (ochr yn ochr â chymwysterau eraill) gyfrif tuag at y dyfarniad. Nid yw Cymwysterau Sgiliau Allweddol a Chymwysterau Hanfodion Cyfredol yn cyfrif

bellach tuag at ddyfarnu'r Fagloriaeth bresennol. Gallai'r newid hwn fod wedi effeithio ar nifer y tystysgrifau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Hanfodol a adroddir yn y data hwn.

### **Mesurau Perfformiad**

Gall newidiadau i fesurau perfformiad hefyd fod wedi effeithio ar nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, roedd cymwysterau galwedigaethol wedi'u capio i ddarparu uchafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion Llywodraeth Cymru (Cyfnod Allweddol 4). Yn 2018, roedd newid pellach yn golygu mai dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth allai gyfrif tuag at gyfran wyddoniaeth y mesur perfformiad. Cyn hynny, caniatwyd i gymwysterau gwyddoniaeth alwedigaethol gyfrif. Ceir rhagor o wybodaeth am y newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

### **Nodweddion cymhwyster**

Rhoddir lefel, maes pwnc sector (MPS) a math i bob cymhwyster. Disgrifir lefelau yn y [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru](#). Dewisir y MPS gan y corff dyfarnu i bennu pa ddiwydiant neu bwnc academaidd y mae'r cymhwyster yn fwyaf perthnasol iddo. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys cyfansymiau chwarterol a blynyddol ar gyfer pob cymhwyster yn ôl lefel a MPS. O ganlyniad i broblemau gydag ansawdd a diffiniadau data, nid yw data fesul y math o gymhwyster wedi'i gynnwys yn y datganiad hwn.

### **Cyfyngiadau data**

Er bod Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddarparu data cywir i ni, ni allwn warantu bod y wybodaeth a roddir i ni yn gywir. Rydym yn cymharu'r data dros amser er mwyn gwirio am unrhyw faterion neu anghysonderau systemig ac i ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i ddilysu'r data. Ein nod yw casglu data sy'n ymwneud â dysgwyr a aseswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn canolfan yng Nghymru, ond mae'n bosibl y gellir cynnwys dysgwyr di-Gymraeg yn y data, neu y gall rhai dysgwyr Cymraeg gael eu heithrio. Er enghraifft, nid yw dysgwyr o bell sy'n astudio gartref yn mynychu canolfan o gwbl. Os felly, disgwyliwn i gyrff dyfarnu ddefnyddio cyfeiriad y dysgwr, ond nid yw'r wybodaeth hon wastad ar gael.

Pan fydd corff dyfarnu yn rhoi'r gorau i gael ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru, nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu data i ni mwyach. Mae hyn yn golygu, os bydd corff dyfarnu yn rhoi'r gorau i gael ei gydnabod gennym yn ystod neu'n syth ar ôl chwarter, na fydd yn darparu data ar gyfer y chwarter hwnnw. Bydd unrhyw dystysgrifau a ddyfarnwyd yng Nghymru yn ystod y chwarter hwnnw tra bod y corff

dyfarnu yn dal i gael ei gydnabod ar goll o'r data yn y datganiad hwn. Mae'r data hanesyddol a ddarparwyd gan Ofqual yn cynnwys data ar gyfer rhai cyrff dyfarnu a oedd, ar adeg casglu data, yn cael eu cydnabod gan Ofqual ond nid gan Cymwysterau Cymru. Lle nad yw corff dyfarnu erioed wedi cael ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru, mae'r holl ddata ar gyfer y corff dyfarnu hwnnw wedi'i ddileu. Pan gaiff corff dyfarnu ei gydnabod gennym ni, ond mae'r corff hwnnw yn ddiweddarach yn ildio cydnabyddiaeth yn ystod y chwarter, mae'r data ar gyfer y chwarter hwnnw wedi'i gynnwys, ac mae'r corff dyfarnu wedi'i dynnu o'r data ar gyfer y chwarter canlynol ymlaen. Mewn nifer fach o achosion, mae corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ac yna wedi cael ei gydnabod eto'n ddiweddarach. Yn yr achosion hynny, dim ond pan na chafodd y corff dyfarnu ei gydnabod drwy gydol y chwarter y mae data wedi'i eithrio. Felly, efallai na fydd cyfansymiau hanesyddol yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd gan Ofqual.

Ar 04 Mai 2018 tynnodd Ofqual gydnabyddiaeth yn ôl gan The Awarding Body for Vocational Achievement (AVA) Ltd (masnachu fel BAA). Gweler y [dudalen hon](#) am fwy o fanylion. Fel rhan o'r ymchwiliad a ragflaenodd y penderfyniad, canfuwyd bod AVA wedi bod yn darparu data tystysgrifau anghywir i Ofqual. Nid yw'n ymarferol cael data wedi'i gywiro gan AVA, ond mae'n hysbys bod graddfa'r cywiriadau yn fach.

## **Pwy ydym ni**

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan y [Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015](#), ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru ac i hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

## **Ein hystadegau**

Mae'r [Gorchymyn Ystadegau Swyddogol \(Cymru\) 2017](#) yn enwi Cymwysterau Cymru fel un o'r cyrff yng nghwmpas y [Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007](#). Cyhoeddir y datganiad hwn fel ystadegau swyddogol, yn unol â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

## **Sicrhau ansawdd**

Ceir manylion am sut rydym yn sicrhau ansawdd y data hwn yn ein [Datganiad Interim ar Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol](#). Mae data hanesyddol wedi bod yn destun [Gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual](#).

Gellir gohirio cyhoeddi os nad ystyrir bod yr ystadegau'n addas i'r diben.

## Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw data ar nifer y tystysgrifau cymhwyster galwedigaethol a ddyfarnwyd fel arfer yn destun adolygiad, er y gellir diwygio datganiadau dilynol i fewnbynnu data hwyr neu i gywiro gwall. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [Polisi Diwygiadau a Chywiriadau](#).

## Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â [Pholisi allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru](#), mae ffigurau llai na 5 ond mwy na 0 yn cael eu disodli gan \*. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a roddir wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r holl ganrannau yn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn cyfateb i'r cyfanswm.

## Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Gymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i ddeall patrymau wrth ddyfarnu'r cymwysterau hyn, ac i helpu i fonitro cymwysterau galwedigaethol.

## Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

[Cyhoeddodd Ofqual ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer Lloegr.](#)

[Ymchwil ac Ystadegau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cwricwlwm, Arholiadau & Asesu \(CCAA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban \(SQA\).](#)

[Ystadegau a gyhoeddwyd gan Eurostat.](#)

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael [ar ein gwefan](#) i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Mae [Cronfa ddata QiW](#) yn darparu gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus yng Nghymru.

## Diweddariad nesaf

Tachwedd 2021 (dros dro).

## **Adborth defnyddwyr**

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir eu darparu drwy e-bost i [ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org).

© (2021) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Gymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.